Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales

Bwletin Allforio Blynyddol Bwyd a Diod Cymru 2024

Allforion Bwyd a Diod Cymru 2024

Cynyddodd gwerth allforion bwyd a diod Cymru **£26 miliwn (3%)** rhwng 2023 a 2024.

Ers 2019, mae'r gwerth wedi cynyddu **£269 miliwn (47%)**.



o werth allforion bwyd a diod o Gymru i'r UE, o'i gymharu â **58%** ar gyfer y DU.

Y categorïau allforio uchaf eu gwerth yn 2024 oedd Cig a Chynhyrchion Cig **(£293m)** a Grawn a Pharatoadau Grawn **(£170m)**.

Y prif gyrchfannau ar gyfer allforion oedd

Iwerddon Ffrainc Gwlad Belg.

Allforiodd y DU werth **£24.9 biliwn** o fwyd a diod yn 2024, a oedd yn gynnydd o **1%** ers 2023.

Roedd allforion bwyd a diod o Gymru yn werth **£839 miliwn** yn 2024, y gwerth blynyddol uchaf ar gofnod gan CThEF.



Gwelwyd y cynnydd canrannol mwyaf rhwng 2023 a 2024 yng ngwerth allforion Llysiau a Ffrwythau, o **£13m** i **£33m (147%)**. Gwelwyd y cynnydd canrannol mwyaf rhwng 2019 a 2024 mewn Grawn a Pharatoadau Grawn, o **£60m** i **£170m (184%)**.

www.businesswales.gov.wales/foodanddrink/cy

bwyd-food@llyw.cymru

@BwydaDiodCymru

Bwyd a Diod Cymru | Food and Drink Wales

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52107, ISBN digidol 978-1-83715-867-6

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Dadansoddiad Categori Cynnyrch

Y tri chategori allforio mwyaf gwerthfawr ar gyfer bwyd a diod o Gymru yn 2024 oedd Cig a Chynhyrchion Cig[1] (£293m), Grawn a Pharatoadau Grawn (£170m), a Chynhyrchion Llaeth ac Wyau Adar (£138m).

Y categori a welodd y cynnydd canrannol mwyaf ers 2023 oedd Llysiau a Ffrwythau, gyda chynnydd o 147% o £13m i £33m.

Dilynir hyn gan Goffi, Te, Coco a Sbeisys, gyda chynnydd o 32% o flwyddyn i flwyddyn, gan godi o £19m i £26m.

Porthiant anifeiliaid a welodd y gostyngiad canrannol mwyaf o flwyddyn i flwyddyn, gan ostwng 47% o £29m i £16m[2].

Mae cyfansoddiad cyfanswm yr allforion bwyd a diod yn amrywio rhwng Cymru a'r DU, gyda sectorau penodol yng Nghymru yn gyfran mwy o gyfanswm yr allforion bwyd a diod o'i gymharu â'r DU fel y dangosir isod.

Cig a Chynhyrchion Cig oedd y categori mwyaf ar gyfer Cymru, sef 35% o'r gwerth allforio bwyd a diod, ac yna Grawn a Pharatoadau Grawn gyda chyfran o 20% o'r holl allforion bwyd a diod. Ar gyfer y DU, Diodydd oedd y categori gyda'r gyfran uchaf, sef 28%, ac yna Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol gyda 10%.

Y ddau gategori isaf ar gyfer Cymru oedd Olew a Braster ar <1% a Siwgr, Paratoadau Siwgr a Mêl ar 1%. Ar gyfer y DU, y ddau gategori isaf oedd Paratoadau Siwgr a Mêl ar 3% a Llysiau a Ffrwythau ar 5%[3].

Cyfran yr Allforion Bwyd a Diod yn ôl Categori, 2024



1. Mae'r categorïau "Cig a Chynhyrchion Cig" yn ogystal ag "Olew a Braster", yn wahanol i'r categorïau eraill, yn grwpiau o godau SITC 2 digid, gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar dudalen olaf y ddogfen hon.
2. Mae'r holl gymariaethau blynyddol yn cymharu gwerthiant gwirioneddol. Nid yw ffigurau'r flwyddyn flaenorol wedi cael eu haddasu i ystyried chwyddiant.
3. Mae'r diffiniad o Fwyd Môr i'w weld ar dudalen olaf y ddogfen hon o dan god 03 SITC.

Dadansoddiad Cyrchfan

Roedd wyth o'r deg prif gyrchfan allforio bwyd a diod o Gymru o fewn yr UE, a'r ddwy wlad oedd y tu allan i'r UE oedd UDA (8fed) a Saudi Arabia (9fed).

10 Gwlad Uchaf yn ôl Gwerth Allforion bwyd a diod (£ miliynau), 2024

Safle	Gwlad	Gwerth Allforio	Canran o Gyfanswm Allforion Bwyd a Diod
1	Iwerddon	180	21%
2	Ffrainc	151	18%
3	Gwlad Belg	79	9%
4	Yr Iseldiroedd	59	7%
5	Yr Almaen	42	5%
6	Yr Eidal	27	3%
7	Sbaen	27	3%
8	UDA	23	3%
9	Saudi Arabia	23	3%
10	Gwlad Pwyl	21	3%
Cyfanswm yr Allforion Bwyd a Diod		839	

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau

Roedd 76% o allforion bwyd a diod o Gymru wedi mynd i wledydd o fewn yr UE, a'r ail a'r trydydd rhanbarth â'r gwerth uchaf oedd y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica (7%, £63 miliwn), ac Asia ac Oceania (6%, £47 miliwn).

Gwerth Allforion Bwyd a Diod Cymru yn ôl Rhanbarth, 2024



Cyrchfannau allforio yn yr UE

Roedd allforion bwyd a diod Cymru i'r UE yn werth £634m yn 2024, cynnydd o £23m ers 2023. Roedd hyn yn cyfrif am 76% o gyfanswm gwerth allforion Bwyd a Diod Cymru.

Allforiodd y DU 58% o'i nwyddau bwyd a diod i'r UE yn 2024, gan dynnu sylw at ddibyniaeth uwch Cymru ar fasnach yr UE o'i gymharu ag allforion y DU ar gyfer bwyd a diod.

Gweriniaeth Iwerddon oedd y gyrchfan â'r gwerth uchaf ar gyfer allforion bwyd a diod o Gymru yn 2024 gyda gwerth o £180m, sy'n cyfrif am 21% o gyfanswm yr allforion bwyd a diod. Roedd cyrchfannau uchel eu gwerth eraill yr UE yn cynnwys Ffrainc (£151m, 18%), Gwlad Belg (£79m, 9%), yr Iseldiroedd (£59m, 7%), a'r Almaen (£42m, 5%).

Roedd y 5 uchaf hyn gyda'i gilydd yn cyfrif am 60% o allforion bwyd a diod o Gymru. Mae'r cyrchfannau uchaf ar gyfer y 5 categori gwerth uchaf i'w gweld yn Atodiad A, tudalen 26.

Allforion Bwyd a Diod o Gymru i Wledydd yr UE, 2024



Y categorïau allforio uchaf eu gwerth i gyrchfannau'r UE yn 2024 oedd Cig a Chynhyrchion Cig (£247 miliwn), Grawn a Pharatoadau Grawn (£132m), a Chynhyrchion Llaeth ac Wyau Adar (£98 miliwn).

Ar draws naw o'r un ar ddeg categori bwyd, cafodd y rhan fwyaf (>50%) o'u gwerth allforio ei gaffael o gyrchfannau'r UE.

Y categori oedd yn dibynnu fwyaf ar allforion yr UE oedd Llysiau a Ffrwythau, gyda 95% o'r gwerth yn mynd i wledydd yr UE.

Y categorïau lleiaf dibynnol ar yr UE oedd Bwyd Môr (46%) yn ogystal â Chynnyrch Bwytadwy Amrywiol (48%), gyda'r ddau yn dibynnu'n fwy ar wledydd y tu allan i'r UE.

Dibyniaeth Allforion ar yr UE yn ôl Sector, 2024



Prif Farchnadoedd yr UE

Iwerddon

Roedd allforion bwyd a diod i Iwerddon yn werth **£180m** yn 2024. Cynyddodd allforion **£32m** ers 2023, a **£74m** ers 2019. Y ffigurau hyn yw'r uchaf yn yr UE yn ystod y cyfnodau dan sylw.

Grawn oedd y categori gwerth uchaf ar **£56m** sef cynnydd o **£6m** o **£50m** yn 2023. Roedd allforion bwyd a diod o'r DU i Iwerddon yn werth **£4bn** yn 2024, y gyrchfan bwyd a diod uchaf ei gwerth i'r DU.

Allforion Bwyd a Diod o Gymru i Iwerddon, 2024 (£ miliynau)



Prif Farchnadoedd yr UE

Ffrainc

Roedd allforion bwyd a diod i Ffrainc yn werth **£151m** yn 2024. Gostyngodd allforion **£4m** ers 2023 a **£67m** ers 2019 (yr ail fwyaf yn yr UE).

Cig a Pharatoadau Cig oedd y categori gwerth uchaf, oedd yn **£103m** (68% o allforion bwyd a diod i Ffrainc). Allforiodd y DU **£2.9bn** o nwyddau bwyd a diod i Ffrainc yn 2024.

Allforion Bwyd a Diod o Gymru i Ffrainc, 2024 (£ miliynau)



Prif Farchnadoedd yr UE

Gwlad Belg

Roedd allforion bwyd a diod i Wlad Belg yn werth **£79m** yn 2024. Mae hyn yn ostyngiad o **£4m** ers 2023 ond yn gynnydd o **£61m** ers 2019 (y trydydd mwyaf yn yr UE).

Cig a Pharatoadau Cig oedd y categori gwerth uchaf, ar **£43m**, sy'n gynnydd o **£12m** o **£31m** yn 2023, y cynnydd uchaf o flwyddyn i flwyddyn i Wlad Belg. Roedd allforion Bwyd a Diod o'r DU i Wlad Belg yn werth **£717m** yn 2024[4].

Allforion Bwyd a Diod o Gymru i Wlad Belg, 2024 (£ miliynau)



4. Mae categorïau gyda £0.0 yn nodi gwerth o lai na £100,000 ond mwy na £0. Mae £- yn nodi nad oes allforion o'r categori hwn.

Prif Farchnadoedd yr UE

Yr Iseldiroedd

Roedd allforion Bwyd a Diod i'r Iseldiroedd yn werth **£59m** yn 2024, roedd hyn yn gynnydd o **£9m** ers 2023, ond yn ostyngiad o **£4m** ers 2019.

Cig a Pharatoadau Cig oedd y categori gwerth uchaf ar **£17m**, roedd hyn yn gynnydd o **£13m** o **£4m** yn 2023, ac yn gynnydd o **£6m** ers 2019. Roedd allforion Bwyd a Diod y DU i'r Iseldiroedd yn werth **£1.7bn** yn 2024.

Allforion Bwyd a Diod o Gymru i'r Iseldiroedd, 2024 (£ miliynau)



Prif Farchnadoedd yr UE

Yr Almaen

Roedd allforion bwyd a diod i'r Almaen yn werth **£42m** yn 2024. Gostyngodd allforion o **£10m** ers 2023, a **£0.1m** ers 2019.

Grawn a Pharatoadau Grawn oedd y categori gwerth uchaf ar **£9m**, gostyngiad o **£1m** o **£10m** yn 2023. Roedd allforion Bwyd a Diod y DU i'r Almaen yn werth **£1.1bn** yn 2024.

Allforion Bwyd a Diod o Gymru i'r Almaen, 2024 (£ miliynau)



Cyrchfannau allforio y tu allan i'r UE

Roedd allforion bwyd a diod o Gymru i wledydd y tu allan i'r UE yn werth £205m yn 2024, cynnydd o £3m o'i gymharu â £202m yn 2023. Mae cynnydd sylweddol dros y tymor hwy, gan gynyddu £66m ers 2019.

Y cyrchfannau uchaf y tu allan i'r UE oedd UDA (£23m), Saudi Arabia (£23m), Twrci (£19m), Awstralia (£15m) a'r Emiradau Arabaidd Unedig (£12m). Roedd y 5 gwlad hyn yn cyfrif am 44% o'r holl allforion bwyd a diod o Gymru i wledydd y tu allan i'r UE, a 12% o gyfanswm gwerth allforion bwyd a diod Cymru.

Y tri chategori allforio bwyd a diod uchaf eu gwerth i wledydd y tu allan i'r UE oedd Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol (£49m), Cig a Chynhyrchion Cig (£46m) a Chynhyrchion Llaeth ac Wyau Adar (£40m).

Rhwng 2019 a 2024, allforion bwyd a diod o Gymru i Saudi Arabia welodd y cynnydd mwyaf, gan gynyddu £14m o £9m i £23m. Dilynwyd hyn gan Dwrci a welodd gynnydd o £8m ac yna'r Emiradau Arabaidd Unedig, a welodd gynnydd o £7m. Y cynnydd mwyaf rhwng 2023 a 2024 oedd Twrci a welodd gynnydd o £3m, dilynwyd hyn gan Rwsia (cynnydd o £3m) ac yna Canada (cynnydd o £3m).

Gwerth Allforion Bwyd a Diod o Gymru i Ranbarthau y Tu Allan i'r UE, 2024



Marchnadoedd Pwysig y tu allan i'r UE

UDA

Roedd allforion Bwyd a Diod i UDA yn werth **£23m** yn 2024, y gwerth mwyaf o wlad y tu allan i'r UE, gan ostwng **£0.2m** ers 2023, ond yn cynyddu **£3m** ers 2019.

Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol oedd y categori gwerth uchaf, sef **£10.6m**, a gostyngiad o **£0.1m** o gymharu â **£10.7m** yn 2023. Roedd allforion bwyd a diod y DU i UDA yn werth **£2.7bn** yn 2024.

Allforion Bwyd a Diod o Gymru i UDA, 2024 (£ miliynau)



Marchnadoedd Pwysig y tu allan i'r UE

Saudi Arabia

Roedd allforion bwyd a diod o Gymru i Saudi Arabia yn werth **£23m** yn 2024, gan ostwng **£2m** ers 2023, ond yn cynyddu **£14m** ers 2019, a dyma'r mwyaf ar gyfer gwlad y tu allan i'r UE.

Y categori allforio gwerth uchaf oedd Anifeiliaid byw ac eithrio bwyd môr ar **£10m**. Allforiodd y DU werth **£231m** o fwyd a diod i Saudi Arabia yn 2024.

Allforion Bwyd a Diod o Gymru i Saudi Arabia, 2024 (£ miliynau)



Marchnadoedd Pwysig y tu allan i'r UE

Twrci

Roedd allforion i Dwrci werth **£19m** yn 2024, gan gynyddu **£3m** ers 2023, a **£8m** ers 2019.

Twrci sydd â'r cynnydd uchaf flwyddyn ar ôl blwyddyn ar gyfer gwlad y tu allan i'r UE a'r ail newid mwyaf ers 2019 ar gyfer gwlad y tu allan i'r UE. Y categori gwerth uchaf a allforiwyd i Dwrci oedd Cynhyrchion Llaeth ac Wyau Adar, gwerth **£12m**. Roedd allforion bwyd a diod y DU i Dwrci werth **£300m** yn 2024.

Allforion Bwyd a Diod o Gymru i Dwrci, 2024 (£ miliynau)



Marchnadoedd Pwysig y tu allan i'r UE

Awstralia

Roedd allforion i Awstralia yn werth **£15m** yn 2024, gan gynyddu **£1m** ers 2023 a **£6m** ers 2019 (y trydydd mwyaf ar gyfer gwlad y tu allan i'r UE).

Y categori gwerth uchaf a allforiwyd i Awstralia oedd Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol, gwerth **£8m**, ac yna Cynhyrchion Llaeth ac Wyau Adar, gwerth **£3m**. Allforiodd y DU werth **£465m** o fwyd a diod i Awstralia yn 2024.

Allforion Bwyd a Diod o Gymru i Awstralia, 2024 (£ miliynau)



Marchnadoedd Pwysig y tu allan i'r UE

EAU

Roedd allforion o Gymru i'r Emiradau Arabaidd Unedig yn werth **£12m** yn 2024. Roedd hyn yn ostyngiad o **£1m** ers 2023, ond yn gynnydd o **£7m** ers 2019 (y trydydd mwyaf y tu allan i'r UE).

Y categori gwerth uchaf a allforiwyd i'r Emiradau Arabaidd Unedig oedd Grawn a Pharatoadau Grawn, gwerth **£7m**. Allforiodd y DU werth **£464** o fwyd a diod i'r Emiradau Arabaidd Unedig yn 2024.

Allforion Bwyd a Diod o Gymru i'r Emiradau Arabaidd Unedig, 2024 (£ miliynau)



Marchnadoedd Pwysig y tu allan i'r UE

Rwsia

Roedd allforion bwyd a diod o Gymru i Rwsia yn werth **£9m** yn 2024, cynnydd o **£3m** ers 2023 (yr ail fwyaf y tu allan i'r UE), a chynnydd o **£2m** ers 2019.

Y categori gwerth uchaf a allforiwyd i Rwsia oedd Cynhyrchion Llaeth ac Wyau Adar, gwerth **£8m**. Allforiodd y DU werth **£83m** o fwyd a diod i Rwsia yn 2024.

Allforion Bwyd a Diod o Gymru i Rwsia, 2024 (£ miliynau)



Atodiad A. Tablau data

Gwerth Allforion Bwyd a Diod a Holl Allforion Cymru a'r DU (£ miliwn), 2019-2024

	Cymru			DU			Cymru fel % o'r DU	
	Bwyd a Diod	Holl Allforion	% o G'swm Cymru	Bwyd a Diod	Holl Allforion	% o G'swm DU	Bwyd a Diod	Holl Allforion
2019	570	17,760	3.2	24,009	340,242	7.1	2.4	5.2
2020	552	13,535	4.1	21,743	290,768	7.5	2.5	4.7
2021	640	15,208	4.2	20,768	312,921	6.6	3.1	4.9
2022	797	20,488	3.9	25,285	385,247	6.6	3.2	5.3
2023	813	19,463	4.2	24,729	369,226	6.7	3.3	5.3
2024	839	16,524	5.1	24,875	348,449	7.1	3.4	4.7

Pwysau allforion bwyd a diod a chyfanswm allforion, Cymru a'r DU (tunnell), 2019-2024

	Cymru			DU			Cymru fel % o'r DU	
	Bwyd a Diod	Holl Allforion	% o G'swm Cymru	Bwyd a Diod	Holl Allforion	% o G'swm DU	Bwyd a Diod	Holl Allforion
2019	271,400	8,663,900	3.1	15,082,600	154,285,300	9.8	1.8	5.6
2020	225,300	7,820,700	2.9	13,244,300	147,694,500	9.0	1.7	5.3
2021	227,500	7,542,800	3.0	10,728,900	129,830,400	8.3	2.1	5.8
2022	245,000	9,022,100	2.7	12,120,600	141,881,700	8.5	2.0	6.4
2023	222,600	7,966,300	2.8	11,601,900	130,721,400	8.9	1.9	6.1
2024	225,000	5,867,200	3.8	10,507,700	118,479,800	8.9	2.1	5.0

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau Cyllid a Thollau EF

Atodiad A. Tablau data

Gwerth allforion bwyd a diod Cymru yn ôl grŵp gwledydd (£ miliynau)

	2019	2020	2021	2022	2023	2024	2024 o'i chymharu â: 2019 % newid	2024 o'i chymharu â: 2023 % newid
Yr Undeb Ewropeaidd	431	414	464	594	611	634	↑ 47%	↑ 4%
Dwyrain Canol a Gogledd Affrica	36	33	57	70	68	63	↑ 74%	↓ 8%
Asia ac Oceania	34	36	41	47	46	47	↑ 38%	↑ 3%
Gorllewin Ewrop (Nid UE)	21	27	29	30	33	34	↑ 67%	↑ 3%
Gogledd America	28	24	26	31	28	31	↑ 9%	↑ 10%
Affrica i'r De o'r Sahara	10	11	12	15	15	14	↑ 39%	↓ 4%
Dwyrain Ewrop (Nid UE)	9	6	9	9	10	13	↑ 49%	↑ 28%
America Ladin a'r Caribi	1	1	2	1	2	3	↑ 190%	↑ 41%
Cyfanswm	570	552	640	797	813	839	↑ 47%	↑ 3%

Canran o allforion bwyd a diod Cymru yn ôl y grŵp gwledydd

	2019	2020	2021	2022	2023	2024
Yr Undeb Ewropeaidd	76%	75%	73%	75%	75%	76%
Dwyrain Canol a Gogledd Affrica	6%	6%	9%	9%	8%	7%
Asia ac Oceania	6%	7%	6%	6%	6%	6%
Gorllewin Ewrop (Nid yr UE)	4%	5%	4%	4%	4%	4%
Gogledd America	5%	4%	4%	4%	3%	4%
Affrica i'r De o'r Sahara	2%	2%	2%	2%	2%	2%
Dwyrain Ewrop (Nid yr UE)	2%	1%	1%	1%	1%	2%
America Ladin a'r Caribi	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm	100%	100%	100%	100%	100%	100%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau Cyllid a Thollau EF

Atodiad A. Tablau data

Gwerth Allforion Bwyd a Diod Cymru fesul cynnyrch (£ miliwn)

							2024 o'i chymharu â:	
	2019	2020	2021	2022	2023	2024	2019 % newid	2023 % newid
Cig a Chynhyrchion Cig	171	199	187	265	280	293	↑ 71%	↑ 5%
Grawn a Pharatoadau Grawn	60	51	139	160	175	170	↑ 184%	↓ 3%
Cynhyrchion Llaeth ac Wyau Adar	133	107	106	138	131	138	↑ 4%	↑ 5%
Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol	77	74	75	85	90	95	↑ 23%	↑ 5%
Diodydd	32	20	31	43	40	38	↑ 21%	↓ 4%
Llysiau a Ffrwythau	18	17	14	14	13	33	↑ 80%	↑ 147%
Coffi Te, Coco a Sbeisys	10	11	19	18	19	26	↑ 160%	↑ 32%
Bwyd Môr	33	25	23	21	20	19	↓ 41%	↓ 5%
Porthiant Anifeiliaid	29	32	28	37	29	16	↓ 47%	↓ 47%
Siwgr, Paratoadau Siwgr a Mêl	7	12	11	12	11	9	↑ 43%	↓ 15%
Olew a Braster	2	2	8	5	3	4	↑ 89%	↑ 8%
Cyfanswm	570	552	640	797	813	839	↑ 47%	↑ 3%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau Cyllid a Thollau EF

Atodiad A. Tablau data

Canran Allforion Bwyd a Diod Cymru fesul cynnyrch

	2019	2020	2021	2022	2023	2024
Cig a Chynhyrchion Cig	30%	36%	29%	33%	34%	35%
Grawn a Pharatoadau Grawn	10%	9%	22%	20%	22%	20%
Cynhyrchion Llaeth ac Wyau Adar	23%	19%	17%	17%	16%	16%
Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol	14%	13%	12%	11%	11%	11%
Diodydd	6%	4%	5%	5%	5%	5%
Llysiau a Ffrwythau	3%	3%	2%	2%	2%	4%
Coffi, Te, Coco a Sbeisys	2%	2%	3%	2%	2%	3%
Bwyd Môr	6%	5%	4%	3%	2%	2%
Porthiant Anifeiliaid	5%	6%	4%	5%	4%	2%
Siwgr, Paratoadau Siwgr a Mêl	1%	2%	2%	1%	1%	1%
Olew a Braster	-	-	1%	1%	-	-
Cyfanswm	100%	100%	100%	100%	100%	100%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau Cyllid a Thollau EF

Atodiad A. Tablau data

Pwysau Allforion Bwyd a Diod fesul cynnyrch (tunelli)

							2024 o'i chymharu â:	
	2019	2020	2021	2022	2023	2024	2019 % newid	2023 % newid
Grawn a Pharatoadau Grawn	61,300	34,900	64,400	68,600	55,900	48,800	↓ 20%	↓ 13%
Cig a Chynhyrchion Cig	50,300	67,700	48,100	46,700	43,700	42,100	↓ 16%	↓ 4%
Llysiau a Ffrwythau	8,300	8,400	4,700	6,600	15,000	39,600	↑ 376%	↑ 163%
Diodydd	42,600	26,800	31,300	39,400	29,600	30,600	↓ 28%	↑ 3%
Cynhyrchion Llaeth ac Wyau Adar	57,600	35,800	34,900	34,000	33,000	30,300	↓ 47%	↓ 8%
Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol	14,000	12,400	10,100	9,800	10,800	10,500	↓ 25%	↓ 3%
Porthiant Anifeiliaid	20,300	21,800	17,900	23,400	18,000	10,200	↓ 50%	↓ 43%
Siwgr, Paratoadau Siwgr a Mêl	6,700	8,200	7,400	8,000	8,800	5,400	↓ 18%	↓ 38%
Coffi, Te, Coco a Sbeisys	1,900	2,000	4,700	4,100	3,800	4,100	↑ 114%	↑ 8%
Bwyd Môr	7,700	6,300	3,000	3,400	2,800	1,700	↓ 78%	↓ 39%
Olew a Braster	700	900	1,200	1,200	1,200	1,500	↑ 108%	↑ 24%
Cyfanswm	271,400	225,300	227,500	245,000	222,600	225,000	↓ 17%	↑ 1%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau Cyllid a Thollau EF

Atodiad A. Tablau data

10 Gwlad Uchaf yn ôl Gwerth allforion bwyd a diod Cymru (£ miliynau), 2019-2024

							2024 o'i chymharu â:	
	2019	2020	2021	2022	2023	2024	2019 % newid	2023 % newid
Iwerddon	106	107	112	145	148	180	↑ 70%	↑ 22%
Ffrainc	84	72	100	150	155	151	↑ 80%	↓ 3%
Gwlad Belg	18	21	56	78	83	79	↑ 339%	↓ 5%
Yr Iseldiroedd	63	53	49	52	50	59	↓ 6%	↑ 18%
Yr Almaen	42	51	44	51	52	42	0%	↓ 19%
Yr Eidal	27	26	22	26	29	27	0%	↓ 7%
Sbaen	37	25	21	27	30	27	↓ 27%	↓ 10%
UDA	20	20	20	24	23	23	↑ 15%	0%
Saudi Arabia	9	9	18	21	25	23	↑ 156%	↓ 8%
Gwlad Pwyl	10	16	17	19	17	21	↑ 110%	↑ 24%
Cyfanswm	570	552	640	797	813	839	↑ 47%	↑ 3%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau Cyllid a Thollau EF

Atodiad A. Tablau data

5 Prif Gynnyrch Bwyd a Diod Cymru a'r 5 Prif Wlad sy'n eu Mewnforio (Gwerth mewn £ miliwn, pwysau mewn tunelli)

Cig a Chynhyrchion Cig

	2019		2020		2021		2022		2023		2024	
	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau
Ffrainc	7	1,500	42	14,300	68	12,000	113	18,500	117	18,100	111	15,300
Gwlad Belg	1	400	11	6,400	16	7,900	25	5,100	31	7,100	44	8,400
Iwerddon	8	2,700	21	10,000	14	4,200	36	8,700	28	6,400	25	6,100
Yr Iseldiroedd	5	1,300	21	18,600	9	12,500	9	6,700	9	5,300	23	7,400
Yr Almaen	8	1,200	28	5,500	17	2,100	18	2,900	22	2,900	17	1,300

Grawn a Pharatoadau Grawn

	2019		2020		2021		2022		2023		2024	
	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau
Iwerddon	8	2,700	25	14,100	36	14,500	41	13,700	50	13,400	56	14,800
Gwlad Belg	1	400	-	100	10	5,400	11	5,600	16	6,000	16	6,100
Ffrainc	7	1,500	6	1,900	9	2,100	10	2,300	10	2,100	13	2,300
Yr Eidal	1	400	-	100	10	2,200	11	2,400	13	2,600	9	2,100
Yr Almaen	8	1,200	-	100	9	4,600	11	5,200	10	3,700	9	2,900

Cynhyrchion Llaeth ac Wyau Adar

	2019		2020		2021		2022		2023		2024	
	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau
Iwerddon	8	2,700	24	10,900	21	8,700	28	7,100	25	7,500	33	11,600
Gwlad Belg	1	400	7	3,200	25	9,200	35	9,200	27	7,600	15	4,300
Twrci	2	300	10	700	8	500	6	400	9	600	12	700
Yr Iseldiroedd	5	1,300	9	5,700	16	8,900	15	8,200	11	6,300	10	3,000
Yr Eidal	1	400	4	1,600	4	1,200	5	1,200	9	3,200	10	2,800

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau Cyllid a Thollau EF

Atodiad A. Tablau data

5 Prif Gynnyrch Bwyd a Diod Cymru a'r 5 Prif Wlad sy'n eu Mewnforio (Gwerth mewn £ miliwn, pwysau mewn tunelli)

Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol

	2019		2020		2021		2022		2023		2024	
	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau
Ffrainc	7	1,500	7	1,500	5	1,500	7	1,600	8	1,300	12	1,500
UDA	11	300	12	300	11	300	10	300	11	400	11	400
Iwerddon	8	2,700	10	3,000	6	2,100	6	2,100	8	2,100	8	2,200
Awstralia	4	300	6	400	5	300	6	300	7	300	8	400
Yr Iseldiroedd	5	1,300	4	700	6	1,000	7	900	8	900	7	1,500

Diodydd

	2019		2020		2021		2022		2023		2024	
	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau
Iwerddon	8	2,700	4	6,800	14	15,800	11	11,600	10	9,200	12	10,600
Yr Iseldiroedd	5	1,300	4	4,900	2	1,700	5	4,800	7	6,700	6	5,200
Sbaen	2	600	2	3,300	3	4,100	3	4,800	3	3,200	3	4,800
UDA	11	300	2	1,500	2	1,400	3	1,300	2	600	3	900
Yr Eidal	1	400	1	400	-	300	2	1,900	1	500	3	2,300

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau Cyllid a Thollau EF

Atodiad A. Tablau data

Gwerth allforion bwyd a diod o Gymru fesul gwlad y DU / rhanbarth Lloegr (£ miliynau), 2019-2024

	2019	2020	2021	2022	2023	2024	2024 o'i chymharu â: 2019 % newid	2024 o'i chymharu â: 2023 % newid
Cymru	570	552	640	797	813	839	↑ 47%	↑ 3%
Yr Alban	6,279	5,279	5,920	7,665	7,212	7,153	↑ 14%	↓ 1%
Gogledd Iwerddon	1,897	1,784	1,812	2,313	2,414	2,500	↑ 32%	↑ 4%
Gogledd-ddwyrain Lloegr	257	239	294	313	300	315	↑ 23%	↑ 5%
Gogledd-orllewin Lloegr	1,947	1,956	1,764	2,206	2,217	2,141	↑ 10%	↓ 3%
Swydd Efrog a'r Humber	1,241	1,236	1,137	1,291	1,310	1,383	↑ 12%	↑ 6%
Dwyrain Canolbarth Lloegr	1,088	1,036	975	1,173	1,167	1,026	↓ 6%	↓ 12%
Gorllewin Canolbarth Lloegr	778	745	833	888	909	1,043	↑ 34%	↑ 15%
Dwyrain Lloegr	2,133	2,006	1,519	1,779	1,682	1,606	↓ 25%	↓ 5%
Llundain	3,016	2,625	2,454	2,914	2,789	2,733	↓ 9%	↓ 2%
De-ddwyrain Lloegr	1,632	1,412	1,357	1,555	1,491	1,353	↓ 17%	↓ 9%
De-orllewin Lloegr	896	796	812	973	969	869	↓ 3%	↓ 10%
Cyfanswm	24,009	21,743	20,768	25,285	24,729	24,875	↑ 4%	↑ 1%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau Cyllid a Thollau EF

Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd

Perthnasedd

Mae'r bwletin hwn yn cynnwys dadansoddiad o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau (RTS) **CThEF** (Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi). Mae'r ffigurau i gyd mewn punnoedd Prydeinig ar sail prisiau cyfredol, nid ydynt wedi cael eu haddasu i ystyried chwyddiant neu gyfraddau cyfnewid arian.

Mae'r holl ddata yn y briff hwn ar gyfer blynyddoedd calendr o 1 Ionawr i 31 Rhagfyr. Nodwch fod y data ar gyfer y flwyddyn fwyaf diweddar yn ddata dros dro a gallai gael ei newid.

Defnyddiwyd un ar ddeg o gategorïau SITC rev.4 (Dosbarthiad Safonol Masnach Ryngwladol) fel a ganlyn i roi'r darlun gorau o'r sector Allforion Bwyd a Diod cyfan:

00
Anifeiliaid byw ac eithrio anifeiliaid categori 03

01
Cig a pharatoadau cig
(Cafodd categorïau 00 ac 01 eu huno i greu uwch gategori: "Cig a chynhyrchion cig")

02
Cynhyrchion llaeth ac wyau adar

03
Pysgod
(nid mamaliaid morol), cramenogion, molysgiaid ac infertebratau morol a pharatoadau ohonynt

04
Grawn a Pharatoadau Grawn

05
Llysiau a ffrwythau

06
Siwgr, paratoadau siwgr a mêl

07
Coffi, te, coco, sbeisys a chynnyrch ohonynt

08
Porthiant anifeiliaid
(heb gynnwys grawn heb ei falu)

09
Cynnyrch a pharatoadau bwytadwy amrywiol

11
Diodydd

41
Olew a braster o anifeiliaid

42
Braster ac olew llysieuol sefydlog amrwd, wedi'u puro neu wedi'u ffracsiynu (Cafodd categorïau 41 ac 42 eu huno i greu uwch gategori: "Olew a braster")

DS: ni chafodd categori 43 ("Braster ac olew o anifeiliaid neu lysiau, wedi'u prosesu; cwyr o anifeiliaid neu lysiau; cymysgeddau neu baratoadau anfwytadwy o fraster neu olew o anifeiliaid neu lysiau, n.e.s.") ei gynnwys oherwydd ei fod yn cynnwys bwyd anfwytadwy.

O'r 13 categori hwn, diffiniwyd 11 o gategorïau cynnyrch, gan i gategorïau 00 ac 01 gael eu crynhoi mewn un categori *Cig a chynhyrchion cig*, ac i gategorïau 41 a 42 gael eu crynhoi mewn un categori *Olew a Braster.*

Cafodd "Storfeydd a Darpariadau y tu allan i Ewrop" eu cynnwys ymysg yr ardaloedd allforio cyrchfan er mwyn bod yn gyson â'r hyn a gyhoeddwyd gan CThEF ar lefel genedlaethol (www. uktradeinfo.com).

Cywirdeb

Y data yn y bwletin hwn yw'r Ystadegau Masnach Rhanbarthol (RTS) a gyhoeddir gan CThEF. Mae'r ystadegau'n ymdrin â nwyddau sydd wedi croesi ffiniau'r DU.

Mae hyn yn golygu nad yw allforion o Gymru i rannau eraill y DU wedi'u cynnwys ac nid oes elfen wedi'i chynnwys chwaith ar gyfer cydrannau a gynhyrchir yng Nghymru pan mae cynnyrch gorffenedig yn cael ei orffen mewn rhan arall o'r DU a'i allforio o fanno. Nid yw CThEF yn cael gwybodaeth am nwyddau sy'n symud o fewn y DU yn unig.

Os oes gan fusnes ganghennau mewn mwy nag un rhanbarth, mae masnach y busnes hwnnw'n cael ei dyrannu i bob rhanbarth yn seiliedig ar **ba gyfran o'i weithlu sydd yn y rhanbarth hwnnw**, waeth beth sy'n cael ei allforio.

Mae Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol yn cynnwys cymysgedd o is-gategorïau gan gynnwys Marjarîn a chynnwys Breuo, a pharatoadau bwyd bwytadwy amrywiol fel paratoadau ffrwythau wedi'u coginio, paratoadau bwyd cyfansawdd, paratoadau saws amrywiol, a pharatoadau bwyd at ddefnydd babanod.

Gellir gweld dadansoddiad llawn o'r categori yn: **SITC Revision 4**.
www.unstats.un.org/unsd/publication/SeriesM/SeriesM_34rev4E.pdf